**L(PPR)04 Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) | Legislation (Procedure, Publication and Repeals) (Wales) Bill

Ymateb gan: Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd | Evidence from: Chief Executive and Clerk of the Senedd

**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Chief Executive and Clerk of the Senedd

6 Rhagfyr 2024

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

Annwyl Mike

**Y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru): Ymgynghoriad**

Ysgrifennaf atoch ynghylch y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) ('y Bil'), a gyflwynwyd gerbron y Senedd ar 21 Hydref ac sydd wedi'i gyfeirio at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar gyfer gwaith craffu yn ystod Cyfnod 1.

Gan fod nifer o ddarpariaethau'r Bil yn ymwneud yn uniongyrchol â swyddogaethau Clerc y Senedd ('y Clerc'), rwy'n gwerthfawrogi'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor ar y Bil. O ystyried yr effaith uniongyrchol ar fy swyddogaethau, dylwn nodi ar y dechrau ei bod yn destun siom na gymerwyd unrhyw gamau gan Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â mi ar ddarpariaethau'r Bil cyn ei gyflwyno. Hyderaf y bydd y Pwyllgor yn sicrhau ei fod yn craffu ar y Bil yn drylwyr, gan gynnwys y darpariaethau hyn.

Fel yr wyf yn siŵr y byddwch yn deall, bydd fy ymateb yn gyfyngedig i'r darpariaethau hynny sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'm swyddogaethau. Nid wyf yn credu y byddai'n briodol imi fynegi barn ar ddarpariaethau ehangach y Bil

<u>Swyddogaethau Clerc Senedd Cymru</u>

Mae swyddogaethau'r Clerc sy'n gysylltiedig â Chydsyniad Brenhinol i Ddeddfau Senedd Cymru, a darpariaethau cysylltiedig, wedi'u nodi ar hyn o bryd yn Adrannau 115(5) i 115(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n ymddangos bod adran 3 o'r Bil yn ailddatgan y swyddogaethau a nodir yn adrannau 115(5A) i 115(5E), gyda rhai newidiadau o ran arddull, o fewn Rhan 2B newydd o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

Rwyf wedi ystyried y mater hwn ac rwyf yn fodlon nad yw ailddatgan y swyddogaethau perthnasol yn newid y broses neu'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i'r Clerc eu dilyn. Fel y cyfryw, nid oes gennyf unrhyw bryderon ynghylch y mater. Fodd bynnag, nodaf fod darpariaethau'r Bil, fel y'u nodir yn y Rhan 2B newydd o Ddeddf 2019, yn cyfeirio at Glerc Senedd Cymru, tra bod Deddf Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at Glerc y Senedd. Bydd y Pwyllgor o bosibl yn dymuno gofyn i Lywodraeth Cymru egluro'r gwahaniaeth hwn yn y dulliau gweithredu.

Yn gywir,

**Manon Antoniazzi**

**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd / Chief Executive and Clerk of the Senedd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.